



Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2020 - 2025

Pam fod yr Awdurdod yn cyhoeddi'r strategaeth hon?

- **Safonau'r Gymraeg**

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr Awdurdod i gydymffurfio ag amrywiaeth o safonau y cytunwyd arnynt gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae **Safon 145 yn rhoi dyletswydd** ar yr Awdurdod i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg.

- **Fframwaith statudol ehangach a sbardunau polisi**

Mae'r fframwaith statudol ehangach o ran yr iaith Gymraeg ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n cefnogi'r strategaeth hon, fel a ganlyn:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2011
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig: Gwerthfawr a Chydnerth 2018

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2011 yn nodi'r amcan lles canlynol:

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
sy'n golygu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig: Mae Gwerthfawr a Chydnerth 2018 yn nodi:

- "Bydd gan y tirweddau dynodedig rôl bwysig i'w chwarae i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol ac fel sgil bwysig yn y byd modern... bydd hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith ar gyfer y gweithle a busnes yn dod yn fwyfwy pwysig."

Mae Llythyr Cylch Gwaith yr Awdurdod ar gyfer 2020-21 yn nodi y dylem fod yn:

- Datblygu polisiâu sy'n sicrhau bod pobl yn gallu byw a gweithio yn eu cymunedau a bod yr iaith Gymraeg yn gallu ffynnu.

Sefyllfa'r Gymraeg yn y Parc

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae 0.3% o drigolion y Parc yn gallu siarad Cymraeg, yn erbyn cyfartaledd cenedlaethol o 19%. Mae gan gymunedau yng Ngorllewin y Parc gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, ni ellir cymryd yn ganiataol bod statws y Gymraeg yn gadarn a chryf yn y Gorllewin. Wrth ddadansoddi data cyfrifiadau 2001 a 2011 yn fanylach, gwelwyd gostyngiadau sylweddol yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg mewn wardiau fel Tawe Uchaf/Fellte, Llangadog, Llanddeusant a Myddfai, Garnant/Cwmaman, Ystradgynlais Wledig a Llanymddyfri. Ystyriwyd y rhain yn gadarnleoedd cymharol i'r Gymraeg. Er bod niferoedd sylweddol is o siaradwyr Cymraeg mewn wardiau yn Nwyrain y Parc, yn rhai o'r rhain y gwelir ambell flaguryn bach o dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Gall hyn fod o ganlyniad i nifer y bobl sydd wedi dysgu Cymraeg yn y wardiau hyn. Bydd yn ddiddorol gweld beth fydd canlyniadau cyfrifiad 2021 yn ei ddweud wrthym.

Nod

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymrwymedig i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl.

Targed

Helpu i gynnal lefel y siaradwyr Cymraeg yn y Parc ar 10.3% yn ôl mesuriad data'r cyfrifiad nesaf.

Cydnabyddir gan Gomisiynydd y Gymraeg mai addysg yw'r sbardun pwysicaf o ran gallu trigolion i siarad Cymraeg ac y bydd ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod yn cael effaith fwy ar nifer y siaradwyr nag unrhyw ymyriadau cadarnhaol y mae'r Awdurdod yn eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i wneud ei orau glas.

Cynllun gweithredu i fwrw'r targed

Bydd APCBB yn:

AD a'r gweithlu

- Penodi staff â sgiliau Cymraeg priodol i'r rôl yn dilyn asesiad gwrthrychol. Gweler atodiad I.
- Cefnogi, annog a monitro staff sy'n dysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg i'r lefel briodol ar gyfer y swydd honno, os nad oes ganddynt y sgiliau hynny yn barod.
- Gofyn i staff sydd â dim neu bron dim sgiliau Cymraeg ddilyn y Cwrs Croeso Iaith Gwaith ar-lein, sy'n 20 awr o hyd, i'w galluogi i ddod yn nes at sgiliau lefel I.
- Cynnig gwybodaeth i staff sydd newydd eu penodi o ran safonau a pholisiâu Cymraeg yr Awdurdod yn ystod y cwrs sefydlu.
- Cynnig hyfforddiant i bob aelod o staff ar ymwybyddiaeth iaith a safonau, polisiâu ac arferion yr Awdurdod o ran y Gymraeg.
- Rhoi cyfleoedd a chymhelliannau i ddysgwyr ymarfer a datblygu eu sgiliau Cymraeg eu hunain.

Aelodau a chyfarfodydd yr Awdurdod

- Cynnig hyfforddiant i bob aelod ar ymwybyddiaeth iaith a safonau, polisiâu ac arferion yr Awdurdod o ran y Gymraeg.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o'r iaith Gymraeg a diwylliant Bannau Brycheiniog, gan gynnwys ynganiad ac ystyr enwau lleoedd.
- Annog aelodau sydd â dim neu bron dim sgiliau Cymraeg i ddilyn y Cwrs Croeso Iaith Gwaith ar-lein, sy'n 20 awr o hyd, i'w galluogi i ddod yn nes at sgiliau lefel I.
- Dechrau a gorffen cyfarfodydd yn ddwyieithog.
- Arddangos cyfarchion a negeseuon dwyieithog ar sgriniau yng nghyfarfodydd yr APC a chyfarfodydd cysylltiedig.

Y Gwasanaeth Addysg

- a. Hyrwyddo a darparu profiadau dysgu awyr agored i blant ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg – o leiaf 25% o'r disgyblion y mae'r gwasanaeth yn rhyngweithio â nhw – naill ai'n gorfforol neu o bell.
- b. Hyrwyddo a darparu addysg amgylcheddol yn uniongyrchol a gyda phartneriaid drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau.
- c. Hyrwyddo gyrfaedd yn y sector amgylcheddol drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn neu daflad carreg o'r Parc Cenedlaethol neu'n genedlaethol ar y cyd â sefydliadau amgylcheddol ac ardaloedd dynodedig eraill.

Cynllun Datblygu Lleol a phenderfyniadau Cynllunio

Mewn cydymffurfiaeth â TAN 20:

- a. datblygu polisiau cynllunio sy'n helpu i atal dirywiad pellach yr iaith Gymraeg.
- b. datblygu polisiau cynllunio sy'n cefnogi addysg a gweithgarwch cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- c. datblygu polisiau cynllunio sy'n helpu i gadw neu greu swyddi lleol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- d. argymhell penderfyniadau ar geisiadau cynllunio sy'n cefnogi'r polisiau uchod.

Cynllun Rheoli a CDLI APCBB

- a. Sicrhau bod llais grwpiau ac unigolion Cymraeg eu hiaith yn cael ei glywed a'i fod yn llywio polisiau'r cynllun rheoli.
- b. Ymgysylltu'n weithredol â materion a datblygu polisiau sy'n helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ac ar draws y Parc.

Prosiectau

- a. Sicrhau bod gweithgareddau i hybu'r Gymraeg a'i defnydd wedi'u hintegreiddio ym mhob prosiect a gynhelir gan yr Awdurdod ar y cam cynllunio, yn ogystal ag wrth ei weithredu.
- b. Sicrhau bod hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan o brif nod/gweledigaeth prosiectau y mae'r Awdurdod yn rhan ohonynt, a bod gweithredoedd yn deillio o hyn.
- c. Annog a chefnogi grwpiau a phrosiectau cymunedol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg i wneud cais i'r CDC am grant.
- d. Annog grwpiau cymunedol i integreiddio prosesau i hyrwyddo'r Gymraeg i mewn i'w prosiectau.
- e. Trefnu a gweinyddu cronfa grant i helpu i gefnogi digwyddiadau a grwpiau Cymraeg i dyfu o fewn y Parc Cenedlaethol.

Gwirfoddolwyr

- a. Codi ymwybyddiaeth ymhlith gwirfoddolwyr o'r iaith Gymraeg a diwylliant Bannau Brycheiniog, gan gynnwys ynganiad ac ystyr enwau lleoedd.
- b. Galluogi siaradwyr Cymraeg i siarad a rhannu'r iaith wrth wirfoddoli i'r Awdurdod.
- c. Rhoi cymhelliannau a chyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu rhywfaint o Gymraeg i lefel briodol.

Ymgysylltu a Chyfathrebu

- Integreiddio'r Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd mewn gohebiaeth pan fo'r cyfrwng yn caniatáu hynny e.e. clipiau fideo.
- Arloesi gyda gohebiaeth sy'n Gymraeg yn gyntaf ac sy'n cyfleu'r un peth yn Saesneg fel testunau paralel nad ydynt yn gyfieithiadau slafaid o'i gilydd.
- Trefnu cystadlaethau Cymraeg – o leiaf un gystadleuaeth flynyddol e.e. ysgrifennu.
- Trefnu a/neu gefnogi 3 digwyddiad Cymraeg yn flynyddol.
- Sicrhau presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan gaiff ei chynnal o fewn neu'n agos at ffin y Parc Cenedlaethol, neu drefnu presenoldeb ar y cyd â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru mewn Eisteddfodau Cenedlaethol mewn manau eraill.

Twristiaeth

- Cynnal cwrs ymwybyddiaeth iaith a diwylliant blynyddol gyda'r nod o ddatblygu pum Cennad Cymraeg y flwyddyn.
- Ceisio cyfleoedd i ddatblygu adnoddau i gefnogi'r cyrsiau Cennad Diwylliant Cymru.
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a phrofiadau diwylliannol i ymwelwyr lle y bo'n briodol e.e. llety lle gall ymwelwyr gael blas ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant ymysg ymwelwyr drwy amrywiaeth o gyfryngau e.e. gwefan cyrchfan Bannau Brycheiniog, byrddau gwybodaeth a chyhoeddiadau.
- Ceisio cyfleoedd i ddatblygu adnodd sy'n codi ymwybyddiaeth o ynganiad ac ystyr enwau lleoedd yn y Parc Cenedlaethol ymhlith ymwelwyr.

Atodiad I: LEFELAU SGILIAU YR IAITH CYMRAEG Gorffennaf 2020

Mae'r disgrifiadau isod yn cyfateb i fframweithiau asesu a chymwysterau: Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol Cymru, Fframwaith Cymwysterau Cymraeg i Oedolion, Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop a lefelau ALTE (Cymdeithas i Brofwyr leithoedd yn Ewrop).

LEFEL 0 - YMWYBYDDIAETH

Gallech: adnabod rhai geiriau Cymraeg, byr a syml a hyd yn oed dyfalu ystyr rhai geiriau pan rydych yn eu darllen neu yn eu clywed, cyn belled ag y mae'r person yn darllen yn araf ac maen nhw mewn cyd-destun sy'n egluro'u hystyr. Pan rydych yn clywed geiriau sawl tro gallech ei haildrodd a hyd yn oed ysgrifennu rhai geiriau byr. Er efallai nad ydych yn credu bod gan y sgiliau hyn fawr o ddefnydd yn y gweithle mae'r iaith yn bell o fod yn estron i chi ac mae gennych sail bendant i ddatblygu eich sgiliau.

Yn fwyaf pwysig mae gennych ymwybyddiaeth gref a dealltwriaeth o'r amgylchedd dwyieithog mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gweithredu ynddo, yr angen i drin y ddwy iaith yn hafal, ac rydych yn arddangos sensitifrwydd tuag at anghenion siaradwyr Cymraeg. Rydych yn ymwybodol o'r hyn gallech ei wneud i drin y ddwy iaith yn hafal ac i gwrdd ag anghenion ieithyddol pob budd-ddeiliad e.e. defnyddio gwasanaethau cyfieithu addas a defnyddio giliau ieithyddol cydweithwyr.

LEFEL 1 – MYNEDIAD

GWRANDO

Gallech:

- ddeall ymadroddion bob ddydd, ac ymadroddion syml iawn os yw'r siaradwr yn siarad yn araf.
- ddeall sgyrsiau am wybodaeth bersonol syml, e.e. ble mae rhywun yn byw, gweithio, beth maen nhw'n hoffi ei wneud, beth wnaethon nhw.

- ddyfalu beth fydd rhywun yn ei ddweud pan fyddan nhw'n rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau, fel amser a lleoliad.

SIARAD

Gallech:

- ddefnyddio mynegiadau pob dydd cyfarwydd, e.e. cyfarchion, diolch.
- ynganu enwau lleoedd ac enwau pobl.
- siarad am bethau personol iawn mewn sefyllfa anffurfiol, e.e. diddordebau, teulu, gwaith, beth wnaethoch chi ddoe.
- siarad am bynciau syml, e.e. y tywydd, amser, prisiau.

DARLLEN

Gallech:

- ddeall brawddegau byr iawn, ac yn gallu dyfalu beth mae rhai hysbysiadau yn ei feddwl.
- ddeall testunau byr lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth syml amdanant eu hunain neu eraill.
- cael hyd i fanylion fel arfer, fel amserau a phrisiau, mewn hysbysebion neu hysbysiadau.

YSGRIFENNU

Gallech:

- ysgrifennu ymadroddion neu frawddegau syml amdanoch chi eich hunan neu eraill.
- trosglwyddo negeseuon syml neu wneud cais syml, e.e. trwy e-bost.

LEFEL 2 – SYLFAEN

GWRANDO

Gallech:

- ddeall pan fydd pobl yn siarad am sefyllfaoedd pob dydd, e.e. gwybodaeth personol, gwaith, beth maen nhw wedi ei wneud neu beth fasen nhw'n ei wneud, cyhyd â'u bod yn siarad yn araf.
- ddeall pan fydd pobl yn gofyn i chi neu rywun arall wneud rhywbeth, a phan fyddan nhw'n gofyn am gynlluniau yn y dyfodol, e.e. am gyfarfod.

SIARAD

Gallech:

- gynnal sgwrs syml â rhywun arall am bynciau pob dydd cyffredin, os yw'r siaradwr arall yn helpu.
- ofyn ac ateb cwestiynau am bynciau cyfarwydd, e.e. gwaith, diddordebau, hoffterau, pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau yn y dyfodol.

DARLLEN

Gallech:

- ddeall negeseuon am bethau bob dydd, a rhai llythyron neu negeseuon e-bost syml iawn, e.e. yn gofyn am rhywbeth, neu'n gofyn i basio neges ymlaen.
- ddeall testunau byr neu lyfrau syml iawn, e.e. llyfrau i blant.

YSGRIFENNU

Gallech:

- ysgrifennu nodyn byr at ffrind neu gydweithiwr yn gofyn am rhywbeth, yn diolch iddynt neu egluro rhywbeth, e.e. absenoldeb o'r gwaith.
- ysgrifennu testun byr am bwnc cyfarwydd, e.e. profiad personol, neu brofiad sy'n ymwneud â'r gwaith.

3 - CANOLRADD

GWRANDO

Gallech:

- ddeall gwybodaeth sy'n cael ei rhoi am bynciau pob dydd, neu pan fydd pethau'n ymwneud â'r gwaith yn cael eu trafod, e.e. mewn sgwrs, neu mewn cyfarfod grŵp bach.
- ddeall y brif neges a'r manylion, os yw'r bobl yn siarad yn glir, e.e. wrth glywed hysbysiadau neu wrth wrando ar fwletin newyddion.

SIARAD

Gallech:

- gynnal sgwrs estynedig â siaradwr rhugl am bwnc cyfarwydd, e.e. diddordebau neu'r gwaith.
- fynegi barn a chyfnewid gwybodaeth am ystod o bynciau sy'n ymwneud â bywyd pob dydd, e.e. diddordebau, teithio, neu bynciau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith.

DARLLEN

Gallech:

- ddeall erthyglau syml uniongyrchol am bynciau o ddiddordeb pob dydd, neu'n ymwneud â'r gwaith.
- ddyfalu beth yw ystyr gair o'r cyd-destun, pan fydd y pwnc yn gyfarwydd.
- ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost a dogfennau sy'n ymwneud â gwaith.

YSGRIFENNU

Gallech:

- ysgrifennu llythyr am y rhan fwyaf o bynciau, ofyn am bethau, rhoi esboniadau, disgrifio profiadau, gwahodd pobl, neu drefnu digwyddiadau.
- ysgrifennu'n eithaf cywir am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. sy'n ymwneud â diddordebau neu'r gwaith.

LEFEL - UWCH

GWRANDO

Gallech:

- ddilyn y rhan fwyaf o sgysiaa a thrafodaethau, hyd yn oed am bynciau sy'n anghyfarwydd i chi.
- ddeall y rhan fwyaf o raglenni teledu a radio ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf, oni bai eu bod yn siarad ag acen gref, anghyfarwydd.

SIARAD

Gallech:

- siarad yn hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd neu waith.
- fynegi barn, cymryd rhan mewn sgwrs, a siarad yn helaeth am bynciau cyffredin, e.e. mewn cyfarfod, neu mewn sefyllfa un-i-un.

DARLLEN

Gallech:

- ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion.
- ddeall y rhan fwyaf o erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf, gyda chymorth geiriadur.
- ddeall nofelau a thestunau eraill, oni bai eu bod wedi eu hysgrifennu mewn arddull ffurfiol neu lafar iawn.

YSGRIFENNU

Gallech:

- ysgrifennu erthygl, adolygiad neu adroddiad byr am amrywiaeth o bynciau cyffredinol eu natur, neu sy'n ymwneud â'r gwaith.

- ysgrifennu testunau manwl sydd wedi ei strwythuro'n dda, sy'n briodol i'r darlennydd.
- ymateb yn gywir i'r rhan fwyaf o ohebiaeth gan gydweithwyr neu gysylltiadau allanol.

5 – GWBL GYMWYS

GWRANDO

Gallech:

- ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, ar bob math o bynciau.
- ddeall pob math o Gymraeg llafar, gan gynnwys darlithiau neu drafodaethau cymhleth.

SIARAD

Gallech:

- fynegi eich hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth.
- addasu arddull eich iaith yn ôl y gynulleidfa, e.e. wrth siarad mewn cyd-destun ffurfiol neu wrth siarad â chydweithwyr.
- siarad yn helaeth am fater cymhleth, cyflwyno dadleuon, ac arwain y drafodaeth.

DARLLEN

Gallech:

- ddarllen a deall bron pob testun ysgrifenedig yn hawdd, gan droi weithiau at eiriadur.
- ddarllen testunau hir, e.e. adroddiadau, erthyglau, i gael hyd i fanylion perthnasol a deall bron pob math o ysgrifennu, e.e. ffurfiol neu anffurfiol.

YSGRIFENNU

Gallech:

- ysgrifennu testunau, adroddiadau, erthyglau, cofnodion neu fathau eraill o destun estynedig mewn arddull sy'n briodol i'r darlennydd.
- ysgrifennu mewn Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol fel y bo'r angen.
- ysgrifennu'n gywir iawn am ystod helaeth o bynciau.